


Mae'r map hwn yn mynd â chi ar **llwybr argymelledig** o'r lleoliadau sy'n **dechrau** o **Ysgol Uwchradd Pencoedre** ac yn **dod** i ben ar **Lannau'r Barri**. Mae'r llwybr **4 milltir** o hyd a dylai gymryd tuag **awr a hanner** i'w gwblhau.

Os hoffech rannu unrhyw luniau o'r llwybr, defnyddiwch yr hashnod **#LlwybrHanesCymunedolyBarri**




Arosfannau Llwybr Ysgol Uwchradd Pencoedre:

- 1) **Ysgol Uwchradd Pencoedre**
- 2) **Stadiwm Parc Jenner**
- 3) **Stryd Newlands** (Dorothy M. Rees)
- 4) **Heol Holltwn** (Sister Amy Evans)
- 5) **Morgan Street** (Elvira Gwenllian Payne a John Darwin Hinds)
- 6) **Swyddfa Dociau'r Barri** (David Davies)
- 7) **Glannau'r Barri** (Dai Woodham)

Diolch am gymryd rhan!

Hoffem ddangos ein gwerthfawrogiad i aelodau o **Brofiad Fictoraidd Y Barri** a **thrigolion y Barri** am gyflwyno syniadau a gwybodaeth ar gyfer y llwybrau.

Hoffem ddiolch hefyd i **contractwyr a phartneriaid prosiect yr ysgol**:



Ysgolion a Cholegau yr 21ain Ganrif 21st Century Schools and Colleges



Llwybr Hanes Cymunedol y Barri – Llwybr a Gwybodaeth Ysgol Uwchradd Pencoedre

I ddathlu **Mis Hanes Cymunedol** ym mis Mai, rydym yn lansio **tri llwybr hanes cymunedol** sy'n dechrau yn ein tair Ysgol Gymunedol Dysgu Uwchradd; **Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, Ysgol Uwchradd Pencoedre ac Ysgol Uwchradd Whitmore.**

Cyflwynwyd syniadau gan y **gymuned leol** ac mae pob pwynt ar y llwybr yn dathlu **digwyddiad hanesyddol pwysig, tironod neu ffigwr arwyddocaol yn Y Barri.** Ewch am dro hamddenol ar hyd un ohonynt neu heriwch eich hun drwy gwblhau'r tri.



Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y Rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif, ewch i'n gwefan:

www.valeofglamorgan.gov.uk/21st-Century-Schools

Mae'r daflen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn fuddsoddiad strategol hirdymor mewn eiddo addysgol ledled Cymru. Mae prosiect Cymunedau Dysgu Uwchradd Y Barri Ysgolion yr 21ain Ganrif yn buddsoddi £86.6 miliwn mewn tair ysgol uwchradd ar draws Y Barri.



1) Ysgol Uwchradd Pencoedtre

Agorwyd yr ysgol ym 1971 fel Ysgol Gyfun Bryn Hafren, ysgol merched 11-19 oed i tua 1,300 o ddisgyblion. Dyluniwyd yr adeilad gan y pensaer adnabyddus, Syr Percy Thomas. Yn 2018, daeth yr ysgol yn Ysgol Uwchradd Pencoedtre ac yn ysgol rhyw gymysg. Mae adeilad ysgol newydd gwerth £21.5m yn cael ei gwblhau ar gyfer 2022.



2) Stadiwm Parc Jenner

Mae Parc Jenner wedi bod yn lleoliad ar gyfer uwch glwb pêl-droed Y Barri ers dros 100 mlynedd, yn ogystal â chynnal athletau a rasio milgwn.

Ar 7 Mai 2013, tynnodd perchennog Tref y Barri y tîm yn ôl o Gynghair Bêl-droed Cymru yn erbyn ewyllys Clwb Cefnogwyr Tref y Barri (BTSC). Amlinellodd y BTSC eu bwriad i chwarae eto y tymor canlynol, gan fabwysiadu enw Tref y Barri Unedig i bwysleisio eu hundod parhaus.

Cyhoeddodd Cymdeithas Bêl-droed Cymru ym mis Mehefin 2013 na fyddent yn cael dychwelyd i'r gynghair ond ym mis Awst dyfarnodd barnwr Uchel Lys Caerdydd o blaid Tref y Barri Unedig. Cafodd y tîm eu cynnwys yn llwyddiannus yn ôl yng Nghynghair Cymru.



3) Stryd Newlands (Dorothy M Rees)

Dorothy Rees (1898–1987) oedd yr AS benywaidd cyntaf dros dde Cymru ddiwydiannol. Roedd yn ferch i weithiwr y dociau a hyfforddodd fel athrawes yng Ngholeg Hyfforddi'r Barri. Roedd yn aelod o Gyngor Bwrdeistref y Barri, a Chyngor Sir Morgannwg o 1934 a daeth yn gadeirydd arno yn 1964-5 (yr ail fenyw i gyflawni'r swydd honno).

Bu'n AS dros etholaeth hynod ymylol Y Barri o 1950 tan 1951, yn gweithio fel Ysgrifennydd Seneddol Preifat i'r Fonesig Edith Summerskill, y Gweinidog dros Yswiriant Gwladol. Mae plac glas wedi'i neilltuo iddi ar Stryd Newlands.



4) Heol Holltwn (Sister Amy Evans)

Sister Amy Evans (1860–1925) â Chymdeithas Nyrsio'r Barri a'r Cylch ym mis Ebrill 1891 ac erbyn 1898 roedd wedi agor Ysbyty Gwirfoddol Doc y Barri ar gyfer yr Anghenus, a'r rhai sy'n Sâl ac yn Marw yn 161 Heol Holltwn. Byddai unrhyw un oedd yn rhy dlawd i gael ei nyrsio gartref yn cael triniaeth feddygol a gofal nyrsio medrus.

Yng nghyfrifiad 1901, roedd yn gofalu am 12 claf gyda dwy nyrs a dau o weision. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, symudodd ar draws y ffordd i eiddo mwy ar gornel Castleland Street ac yn y cyfrifiad nesaf roedd 20 o gleifion, dwy nyrs, cogydd a gwas cyffredinol. Arhosodd yno tan ei marwolaeth ym mis Mawrth 1925, gan adael ei hystâd i Katharina Elizabeth Helena Evans.



5) Morgan Street (Elvira Gwenllian Payne a John Darwin Hinds)

Roedd teulu Hinds yn arloeswyr gwleidyddol i'r gymuned Garibiaidd yn ne Cymru. Ganwyd Elvira Gwenllian Payne a John Darwin Hinds i Leonard Hinds a Gwenllian Lloyd.

Elvira Gwenllian Hinds (1917-2007) ganwyd yn Morgan Street a adwaenwyd fel Gwen, oedd Cyngorydd benywaidd Du cyntaf Cymru. Priododd Colin Montgomery Payne ym 1951. Bu'n gweithio i lawer o sefydliadau gan gynnwys sefydliad Cymdogion Stryd Dda, Cŵn Tywys i'r Deillion, Ymchwil Canser Tenovus, ac roedd yn un o sylfaenwyr canolfan gymunedol Buttrills.



Gwasanaethodd fel Arglwydd Faeres ei brawd John ond ym 1972 fe'i hetholwyd i Gyngor Bro Morgannwg yn ei hawl ei hun. Hi oedd maeres Bro Morgannwg o 1974 i 1976 a dirprwy faer Cyngor Tref y Barri ym 1979. Parhaodd i ymwneud â gwleidyddiaeth leol tan ei marwolaeth.

I ddechrau, dilynodd John Darwin Hinds (1922-1981), yn olion troed ei dad yn gweithio i lawr y pyllau glo. Ef oedd y Cyngorydd Du cyntaf yng Nghymru (1958, Cyngor Tref y Barri), Maer cyntaf Cyngor Sir (1975, Bro Morgannwg) ym Mhrydain a'r Mwslim cyntaf i fod â'r swyddi hynny. Gweithiodd John i leddfu llawer o broblemau cymdeithasol de Cymru.

6) Swyddfeydd Cyngor Dociau'r Barri (David Davies)

Ysbrydolwyd Swyddfeydd y Dociau gan galendr natur. Mae gan yr adeilad bedwar llawr (tymhorau'r flwyddyn); mae gan y cyntedd ddeuddeg panel (misoedd o'r flwyddyn); 52 o leoedd tân marmor (wythnosau'r flwyddyn); 365 o ffenestri (dyddiau'r flwyddyn); saith ffenestr fach yn y ffenestr linter â threswaith (dyddiau'r wythnos); ac mae gan bob ffenestr bedwar cwarel o wydr (wythnosau mewn mis). Yn waliau dwyreiniol a gorllewinol y cyntedd mae dwy ffenestr gylchol (Yr Haul a'r Lleud); mae gan y staer cerrig Portland 31 o risiau (dyddiau'r mis) ac mae ganddo falwstrad gwaith haearn addurnol gyda dail cylchol a llwybrau ffrwythau.



Y diwydiannwr David Davies (1818–1890) a greodd Ddociau a Chwmni Rheilffordd y Barri. Allforiwyd miliynau o dunelli o lo o'r dociau a defnyddiodd lluoedd o ymwelwyr dydd y rheilffyrdd i gyrraedd Ynys y Barri. Gadawodd ystâd gwerth bron i £405,000 pan fu farw yn 1890. Saif cerflun efydd o David Davies o flaen Swyddfeydd y Dociau, wedi'i gerflunio gan Alfred Gilbert.

7) Glannau'r Barri (Dai Woodham)

Sefydlwyd Woodham & Sons ym 1892 gan Albert Woodham ac fe'i lleolwyd yn Thomson Street. Prynodd a ailwerthodd y cwmni hen raffau, pren a metel sgrap gan fusnesau morol Dociau'r Barri a oedd newydd eu creu. Pan ymddeolodd Albert yn 1947, gwnaeth ei fab Dai Woodham (1919-1994) gymryd y busnes drosodd a'i ailenwi'n Woodham Brothers.

Gellir olrhain mwy nag 80% o locomotifau stêm sy'n rhedeg ar reilffyrdd treftadaeth yn y DU yn ôl i Woodham's, wrth i'r iard ddod yn ganolfan pererindod i selogion stêm. O'r 297 o locomotifau stêm Prydeinig a anfonwyd i'r iard, achubwyd 213 ar gyfer y mudiad cadwraeth rheilffyrdd sy'n datblygu.

Arhosodd 10 injan erbyn 1987. Mae sawl un wedi'u hadfer a'u defnyddio'n llawn ar reilffyrdd treftadaeth ledled y DU, eraill yn cael eu stripio a'u defnyddio ar gyfer cydrannau, ac mae'r ddau locomotif sy'n weddill yn cael eu hadfer rhai cannoedd o lathenni o'r man lle'r oeddent ar un adeg yn sefyll yn yr iard enwog honno yn nocioau'r Barri. Gallwch weld yr hen a'r newydd ochr yn ochr o amgylch Glannau'r Barri o'r hen locomotifau i'r siopau, y bwytai a'r tai newydd.

